

COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR
Y.C YN YSGOL PANT PASTYNOG, PRION AR NOS LUN 2IL O FEHEFIN 2014
AM 7.00 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Philip Williams (Cadeirydd), Falmai Evans, Hywel Davies, Stan Williams, Gwennan Hughes, Barri Evans, Iwan Jones, Eirian Parry, Cynghorydd Sir Ddinbych Joe Welch a'r Clerc.

1. YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Jill Evans ac Eirlys Jones.

2. CADARNHAU COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL 2013.

Cadarnhawyd cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2013 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. DIOLCHIADAU.

Diolchwyd Y Cynghorydd Philip Williams i'r cyn Cadeirydd Jill Evans am ei waith fel Cadeirydd am y tymor 2013/14 a diolchwyd i'r Aelodau ar Glerc am eu gwaith yn ystod yn flwyddyn flaenorol.

4. PENODI CADEIRYDD AM Y TYMOR 2014/15.

Etholwyd y Cynghorydd Philip Williams yng Nghadeirydd y Cyngor am y tymor 2014/15.

5. PENODI IS-GADEIRYDD AM Y TYMOR 2014/15.

Etholwyd y Cynghorydd Stan Williams yn Is-gadeirydd y Cyngor y Cyngor am y tymor 2014/15.

6. CYNRYCHIOLAETH Y CYNGOR AR FUDIADAU ERAILL YN Y GYMUNED.

- A. Un Llais Cymru – Philip Williams a Hywel Davies.
- B. Llywodraethwr Ysgol Pant Pastynog – Hywel Davies.
- C. Llywodraethwr Ysgol Bro Cinmeirch – Philip Williams.
- D. Bwrdd yr Elusennau – Gwennan Hughes, Stan Williams a Philip Williams.
- E. Ystafell Gymunedol, Llanrhaeadr – Barri Evans.

7. LWFANS BLYNYDDOL Y CADEIRYDD AM Y TYMOR 2014/15.

Penderfynwyd yr Aelodau i roi Lwfans Cadeirydd o £250.00 i'r Cadeirydd Philip Williams am y flwyddyn 2014/15.

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR Y.C. A
GYNHALIWIYD AR NOS LUN 2IL O FEHEFIN 2014 YN YSGOL PANT
PASTYNOG, PRION AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Philip Williams (Cadeirydd), Falmai Evans, Hywel Davies, Stan Williams, Gwennan Hughes, Barri Evans, Iwan Jones, Eirian Parry, Cynghorydd Sir Ddinbych Joe Welch a'r Clerc.

1. YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Jill Evans ac Eirlys Jones.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 28aon o Ebrill 2014 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Ar ôl gwybodaeth ychwanegol oddi wrth Ysgol Bro Cinmeirch ynglŷn â phenodiad cynrychiolaeth Llywodraethwr dros Gyngor Cymuned Llanrhaeadr penodwyd y Cynghorydd Philip Williams fel cynrychiolydd y Cyngor.

B. Derbyniwyd adroddiad Swyddog Cydymffurfio Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych bod perchennog Cae'r Mynydd, Saron wedi symud y gwastraff o'r cae, ond mae'r Adran yn dal gyda'r gorchymyn ynglŷn â chael ymadael o'r gwastraff yng nhefn Ysgol Pant Pastynog.

C. Derbyniwyd llythyrau o ddiolch am gefnogaeth arian y Cyngor oddi wrth:-

1. Cylch Ti a Fi, Prion.
2. Clwb Sêr, Prion.

4. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £12,840.00.

B. Tal i'r Cyngor Sir Ddinbych am gyfarfod y Cyngor - £20.00.

C. Derbyniwyd manylion cwrs hyfforddiant i'r Cyngor gan Gyngor Sir Ddinbych ar 9fed o Orffennaf 2014 - penderfynwyd peidio â mynychu.

5. MATERION CYNLLUNIO.

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu cais cynllunio am adeilad amaethyddol mewn cae yng Nghae'r Mynydd, Saron.

6. GOHEBIAETH.

A. Derbyniwyd trafodaeth gyda'r cyhoedd ar gychwyn y cyfarfod ynglŷn a'r Prosiect Cysylltu Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru gan Scottish Power sydd yn cynnwys peilonau trydan bydd ar un o'r llwybrau sydd am fynd trwy Saron a Peniel. Ar ôl trafodaeth penderfynwyd cael gyfarfod cyhoeddus gyda chynrychiolaeth o Scottish Power a Mr David Jones, Aelod Seneddol i drafod y prosiect ymhellach yn ystod mis Mehefin 2014.

B. Derbyniwyd ymddiswyddiad Eirian Parry ac Eirlys Jones fel aelodau'r Cyngor. Penderfynwyd y Clerc hysbysebu'r Seddi Wag ac i yrru llythyrau o ddiolch at Eirian ac Eirlys am eu gwasanaeth dros y Cyngor am sawl flwyddyn.

C. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

7. UNRHYW FATER ARALL.

A. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych at y canlynol:-

1. Cyflwr y ffordd heibio Nant Aber Oer rhwng Prion a Peniel.
 2. Glaswellt eisiau ei thorri rhwng Capel Prion a'r groesffordd.
 3. Gofyn pryd mae'r Adran am roi wyneb newydd rhwng y Gof Colofn, Llanrhaeadr a Llewesog, Prion.
 4. Cyflwr y ffordd rhwng Bryn Derwen a Crud-y-Gwynt ym Mhrion.
- B. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc gofyn i'r Cynghorydd Sir Joe Welch am adroddiad ynglyn a'r llwybr tu ôl i Cae'r Felin yn Llanrhaeadr.

8. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - I'w chadarnhau ar ol cyfarfod cyhoeddus yn ystod mis Mehefin.